# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 8

CYFFREDINOL

## PENNOD 1

UNIONDEB CYMERIAD

### 136 Gwrthdrawiadau buddiannau

(1) Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol beidio ag arfer swyddogaeth os oes ganddo fuddiant cofrestradwy sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth.

(2) Mewn achos lle y mae is-adran (1) yn atal y Comisiynydd rhag arfer swyddogaeth, rhaid iddo ddirprwyo'r swyddogaeth honno (i'r graddau y bo'n angenrheidiol i alluogi'r gwaith hwnnw o'i harfer i gael ei wneud)—

- (a) i'r Dirprwy Gomisiynydd, neu
- (b) i aelod arall o staff y Comisiynydd.

(3) Mewn achos lle y mae is-adran (1) yn atal y Dirprwy Gomisiynydd rhag arfer swyddogaeth, rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau i'r swyddogaeth gael ei harfer gan rywun heblaw'r Dirprwy Gomisiynydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 136 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 136 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2012/969, **ergl. 2(m)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 136.